

This is an Open Access document downloaded from ORCA, Cardiff University's institutional repository:<https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/121935/>

This is the author's version of a work that was submitted to / accepted for publication.

Citation for final published version:

Rosser, Siwan 2019. Adnabod Godidowgrwydd Cyrtens: Plant a Phlentyndod yng ngwaith Gwyn Thomas. *Llên Cymru* 42 (1) , pp. 42-69. 10.16922/lc.42.4

Publishers page: <http://dx.doi.org/10.16922/lc.42.4>

Please note:

Changes made as a result of publishing processes such as copy-editing, formatting and page numbers may not be reflected in this version. For the definitive version of this publication, please refer to the published source. You are advised to consult the publisher's version if you wish to cite this paper.

This version is being made available in accordance with publisher policies. See <http://orca.cf.ac.uk/policies.html> for usage policies. Copyright and moral rights for publications made available in ORCA are retained by the copyright holders.



ADNABOD GODIDOWGRWYDD CYRTENS: PLANT A PHLENTYNDOD YNG  
NGWAITH GWYN THOMAS

Hawdd gan rai ddibrisio plentyndod. Cyfnod dros dro ydyw i'w roi heibio wrth dyfu'n hŷn, wedi'r cyfan. O ganlyniad, gall llenyddiaeth (yn arbennig barddoniaeth) sy'n ymdrin â phlant a'u pethau, eu dywediadau a'u hiwmor beri peth anesmwythyd i ambell un. Gall ymddangos braidd yn anaeddfed, ansoniarus ac ysgafn, heb y perseinedd neu'r dyfnder disgwylidig. Bardd dewr, felly, sy'n mentro ymateb i fyd plant heb addurno ei gerddi â thelynegrydd huawdl neu ddelweddau hiraethlon am ddyddiau a fu. Bardd o'r fath yw Gwyn Thomas. Roedd plant yn gwbl ganolog i'w waith, yn ysbrydoliaeth i'w awen ac yn ddarllenwyr i'w meithrin. Mae eraill wedi trafod y modd y mae ei gerddi plant o'r 1970au cynnar yn arwyddo'r newid cywair ac arddull, o 'ofnadwyaeth' i 'orfoledd', a welir yn ei farddoniaeth ar y pryd.<sup>1</sup> Ond dengys yr ysgrif hon nad dianc i fyd diniwed a llawen plant er mwyn osgoi hagrwach yr ugeinfed ganrif a wnaeth. Yn hytrach, i fardd a oedd am beri i'w ddarllenwyr fyw, teimlo a gweld yr hyn yr oedd am ei gyflwyno iddynt, roedd i ddelwedd y plentyn rym arbennig.

\*\*\*

Mae plant a'u profiadau yn eu hamlygu eu hunain mewn dwy brif ffordd yng ngweithgarwch creadigol y gŵr o'r Blaenau. Ar y naill law, mae nifer o'i gerddi'n trafod plentyndod yn uniongyrchol. Apelia cyfran helaeth o'r rheini at ddarllenwyr a chynulleidfaoedd ifainc hefyd, er na fwriadwyd i'r mwyafrif fod yn gerddi i blant fel y cyfryw. Ar y llaw arall, mewn testunau ar hanes a chwedloniaeth, megis *Y Mabinogi* (1984), mae plant a phobl ifainc yn ddarllenwyr targed y mae Gwyn Thomas y llenor a'r athro yn awyddus i'w goleuo a'u

haddysgu am eu gorffennol diwylliannol. Mae'r ifainc yn llestri parod i dderbyn gwaddol y gorffennol, yn gynfasau glân iddo baentio arnynt luniau llachar o hanes a chwedloniaeth Cymru.<sup>2</sup> Trawsffurfiwyd y cyfrolau hyn yn destunau gweledol cofiadwy gan ddarluniau eiconig Margaret Jones, a dyfarnwyd i'r awdur a'r artist wobrau llenyddiaeth plant Tir na nOg ar y cyd deirgwaith, yn 1989, 1993 a 2004, am eu haddasiadau darluniadol o chwedl *Culhwch ac Olwen* a *Chwedl Taliesin* a *Stori Dafydd ap Gwilym*.<sup>3</sup> Yn ogystal, drwy asio'r gerdd 'Drama'r Nadolig' â darluniau Jac Jones rhoddwyd i'r farddoniaeth wreiddiol, fel y trafodir yn y man, bosibiliadau newydd.<sup>4</sup> Yr hyn a ddangosir yn yr ysgrif hon yw bod ysgrifennu am blant ac ar eu cyfer yn rhan o'r un gweithgarwch: gweithgarwch a oedd yn cyfuno'r awydd i ddiddanu a rhannu grym geiriau ynghyd â'r angen i beri i'w gynulleidfa oedi ac ymateb, deall a chydymdeimlo â'r pethau a oedd o bwys gwirioneddol yn ddiwylliannol, ieithyddol a dyneiddiol. Tynnai sylw at y pethau mawrion hyn drwy gyfrwng y pethau bychain. Y rhain yw'r 'bachau' bob dydd, fel y sylwodd Gerwyn Williams, sy'n 'cydio wrth themâu mwy sylfaenol' gan beri i rai cerddi plant ymddangosiadol un dimensiwn a naif 'dyfu'n drosiadau'.<sup>5</sup>

O'r un hanfod y daw'r cerddi a'r addasiadau hyn, ac o'r herwydd anodd yw tynnu ffin rhwng y testunau a fwriadwyd yn benodol ar gyfer plant a'r testunau i oedolion. Yn wir mae'n codi'r cwestiwn a oedd Gwyn Thomas yn gwahaniaethu yn y modd hwn o gwbl. Nid yw ei gyfrolau barddoniaeth yn mynegi'n eglur ai darllenwyr iau a oedd ganddo mewn golwg wrth gyfansoddi neu gyhoeddi cerddi penodol, er y byddai nifer ohonynt maes o law yn cael eu cyfri'n addas iawn i bobl ifainc yn arbennig. Diau mai llunwyr meysydd llafur a blodeugerddi i blant a roes i'w farddoniaeth y fath beth â darllenwyr targed. Erbyn canol y 1990au, roedd Gwyn Thomas yn fardd i'r arddegau'n neilltuol, fe ymddengys, ac yn ymwelydd cyson â phapurau arholiad a blodeugerddi ar gyfer ysgolion.<sup>6</sup> Fe'i hawliwyd hefyd

yn fardd ar gyfer plant iau pan ddetholwyd ei gerdd ‘Ysgol Haf’ gan Mererid Hopwood ar gyfer y gyfrol ddarluniadol *Cerddi'r Cof: Goreuon Barddoniaeth i Blant* yn 2008.<sup>7</sup>

Eto, ni ellir yn hawdd gategoreiddio gwaith Gwyn Thomas ac mae hynny'n adlewyrchu amwysedd barddoniaeth plant yn fwy cyffredinol hefyd. Honnodd W. H. Auden, er enghraifft, nad oedd yr un gerdd yn bodoli ar gyfer plant yn unig. Meddai wrth gyflwyno cerddi Walter de la Mare yn 1962: ‘while there are some good poems that are only for adults, because they presuppose adult experience in their readers, there are no good poems which are only for children’.<sup>8</sup> Ac wrth drafod cerddi plant Waldo'n ddiweddar, mynnodd Mererid Hopwood nad oes ffiniau oedran i farddoniaeth gan ddweud:

Pan fo cerdd yn wirioneddol hardd, byddwn ni i gyd – 'waeth beth yw ein hoedran na'n cefndir, fentra' i ddweud – yn ei chanfod yn hardd [...] ar ryw lefel gyntefig, y mae'n debyg bod gwir farddoniaeth yn ein cyrraedd ni i gyd, ac yn nwylo'r meistri gall y syniadau cymhlethaf, o'u gwisgo yn y dillad cywir, hefyd ein cyrraedd ni oll.<sup>9</sup>

O ganlyniad i amhendantrwydd y gynulleidfa ar gyfer barddoniaeth, mae cerddi i blant wedi bod yn gyfuniad erioed o destunau a luniwyd ar eu cyfer a thestunau o fyd oedolion y rhoddwyd iddynt ryw arwyddocâd arbennig i fyd plant. O ganlyniad, mae'r canon barddoniaeth plant o reidrwydd yn llithrig ac anodd ei ddiffinio. Mae Gwyn Thomas, wrth wrthod cael ei glymu at unrhyw gynulleidfa benodol, felly, yn ymgorffori'r hyblygrwydd hwn. Nid llenor plant ydoedd, na llenor am blant yn unig. Yr hyn a wnaeth oedd rhoi, am y tro cyntaf, lwyfan eang i blant a'u profiadau mewn barddoniaeth Gymraeg a chreu math o *lingua franca* a'i galluogodd i gyfathrebu mewn modd newydd ac uniongyrchol â'i ddarllenwyr, o bob oed.

\*\*\*

O'r 1960au ymlaen, symbylwyd Gwyn Thomas i ymateb yn greadigol i'r profiad a'r emosïynau ynghlwm wrth fagu plant, yn gyntaf fel tad ac yna'n ddiweddarach fel taid. Yn y gyfrol farddoniaeth *Enw'r Gair* yn 1972 y gwelir ffrwyth yr ymateb hwn mewn print am y tro cyntaf,<sup>10</sup> ac yn ddiweddarach yn ei yrfa fel hyn y myfyriodd ar ddylanwad plant ar ei fydolwg a'i greadigrwydd yn ei hunangofiant llenyddol, *Llyfr Gwyn*:

Pan anwyd plant Jennifer a minnau, tri ohonynt, sef Rhodri, Ceredig a Heledd, mi ddigwyddodd yna rywbeth rhyfedd i mi [...] daeth y *teimlad* o fod yn blentyn yn ôl imi, i raddau, wrth imi weld fy mhlant fy hun yn mynd trwy eu pethau. Y mae hyn yn fater gwahanol i *gofio* pethau o'm plentyndod – yr ydw i, hyd yn hyn, yn gallu cofio fy mhentyndod yn eithaf manwl. Fe ddaeth ystyried hyn â syniad i 'mhen i, sef ein bod ni i gyd yn cael rhyw fath o adnewyddiad yn ein plant, a'n bod ni i gyd yn cael ail adnewyddiad pan gawn ni wyrion.<sup>11</sup>

Tystia ei hunangofiant *Bywyd Bach* i'r datganiad hwn ynghylch ei gof byw am ei ddyddiau cynnar. Yno, mae'n rhestru ag afiaith gampau ei blentyndod, o ddringo coed a chreigiau i ganfod nythod adar, a chwarae â chonceys, marblis, bachyn a phowl, botymau a chyrcs poteli llefrith.<sup>12</sup> Gallai hefyd ddwyn i gof fanylion atgofion poenus, megis pan gafodd ei gymell yn chwe blwydd oed i dŷ cymydog er mwyn gweld corff marw ffrind ysgol iddo.<sup>13</sup> Ond sylwer ei fod yn y dyfyniad uchod o *Llyfr Gwyn* yn mynnu nad ei alluogi i *gofio* ei blentyndod ei hun yn well a wnaeth dyfodiad ei blant, ond adnewyddu'r *teimlad* o fod yn blentyn. Fel bardd, felly, cafodd gyfrwng i weld o'r newydd, nid ei blentyndod ei hun, ond rhyfeddod y bywydau bach o'i gwmpas:

Y mae gwreiddioldeb a diniweidrwydd plant, a'u hysbeidiau o grincyddiaeth, yn ogystal â gofidiau a phryderon y cyfrifoldeb amdanynt – heb anghofio eu mynnu

priodol nhw i fod yn nhw eu hunain ac nid yn fersiynau bach o’u rhieni – yn wirioneddol ryfeddol.<sup>14</sup>

Yn sgil y reddf hon i werthfawrogi creadigrwydd a gwreiddioldeb plant gall ystyried stori fer a adroddodd Neville o Losdryd, a oedd yn yr ysgol ag ef, am gawr mawr yn dwyn hogyn o’i gartref ‘a mynd â fo adra i dorri brechdan iddo fo’ yn ‘lleyddiaeth feicro wirioneddol arloesol’ ac yn ‘llam athrylithgar o ddychmygus’.<sup>15</sup> Gall fod elfen o ddireidi yn y ganmoliaeth i greadigrwydd Neville yma, wrth gwrs, ond mae anwylder y dweud yn cyfleu cymaint y mwynhad a gâi o dystio i’r fflachiadau hyn o ddychmyg byw plant. Yn yr un modd, gwelai ddeunydd cerdd yn ystum neu barabl babanod a phlant bychain. Arfer ei fab hynaf o ofyn ‘Be ydi enw’r gair?’ pan oedd yn dysgu siarad a roes deitl i’r gyfrol *Enw’r Gair*, er enghraifft. Lleferydd plant, a’u hiwmor anfwriadol, sy’n sail i nifer o gerddi’r gyfrol honno. Deillia’r gerdd ‘Gogi’ o’r enw a ddefnyddiai un o’r meibion ar gyfer lorri ludw,<sup>16</sup> ac yn ‘Esboniadau’ cyferbynnir esboniadau gorfawl wyddonol rhagolygon tywydd y BBC ag esboniad ‘lawn cystal’ bachgen ifanc am ffynhonnell glaw: “‘Dyn y lleuad sy ’di agor tap yn ’rawyr.’”<sup>17</sup>

Nid peth newydd oedd tynnu sylw at ffraethineb plant. Er mor syber yw cylchgronau plant y bedwaredd ganrif ar bymtheg, mae hyd yn oed yn y cynharaf yn cynnwys enghreifftiau o ymatebion doniol a diniwed plant i wahanol sefyllfaoedd. Yn y cylchgrawn cyntaf i blant a olygwyd gan y Parch. David Charles a’r artist Hugh Hughes, er enghraifft, argraffwyd llythyr yn adrodd hanes pregethwr a ofynnodd i blant yr Ysgol Sul egluro ystyr yr adnod o Genesis am Esau yn wylo.<sup>18</sup> ‘Wheelo fel â wheelbarrow,’ oedd Esau meddai un, ‘whilo am ryw beth, ydoedd yn ôl un arall, a ‘hwylo fel y bydd llong yn hwylo’ oedd cynnig y trydydd. Y bachgen lleiaf yn y dosbarth yn unig a wyddai’r ateb, ac mewn llais crynedig cynigiodd mai ‘llefain’ a wnaeth Esau.<sup>19</sup>

Er doniolwch yr hanesyn nid oes modd i'r darllenydd osgoi neges addysgol ehangach y llythyr ynghylch pwysigrwydd darllen deallus a gwybodus o dan arweiniad athrawon cymwys. 'Mr, Addysgydd!' meddai'r gohebydd:

[...] nid dychymmyg yw'r hyn a adroddwyd, ond gwir hanes, a'r dyben o'i adrodd yw, nid gwaradwyddo neb, ond dangos i'ch darllenwyr dyallus, mor annyallus y darllen rhai y Bibl os na chymmerir poen neillduol i geisio tynu eu sylw at yr wybodaeth a gynnwysir yn y geiriau a'r ymadroddion a ddarllenant.<sup>20</sup>

Hiwmor at ddefnydd penodol a phwrpasol sydd yma, wrth gwrs, a hynny'n nodweddiadol o lenyddiaeth plant y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Erbyn ail hanner yr ugeinfed ganrif, fodd bynnag, nid cynnig cyfle i amlygu neges gymdeithasol nac efengylol ehangach a wna anecdotau ynghylch ffraethineb a phrofiadau plant. Yn achos Gwyn Thomas, maent yn sbardun ac yn gyfrwng testunau creadigol llenor o bwys.

Bu beirdd eraill dros y canrifoedd yn canu am blant, wrth gwrs. Ond mynegi galar yn sgil marwolaethau anhymig meibion a merched a wnaï'r mwyafrif llethol o'r cerddi hynny, fel y dengys y corff sylweddol o farwnadau plant yr Oesoedd Canol,<sup>21</sup> a galarnadau adnabyddus Goronwy Owen a Robert ap Gwilym Ddu i'w merched Elin, a fu farw yn flwydd oed, a Jane Elizabeth a gollwyd yn 17oed.<sup>22</sup> Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn sgil gwelliannau i les a iechyd teuluoedd a syniadaeth newydd ynghylch addysg a magu plant, lleihaodd y pwyslais ar feidroldeb a breuder bywydau plant yn y cerddi amdanynt. Yn hytrach, dechreuwyd synied am blant a phlentyndod fel testunau i ryfeddu atynt a'u hamddiffyn a chafwyd mwyfwy o gerddi'n delweddu diniweidrwydd a hud plentyndod. Honnir mai i'r llinach Ramantaidd hon y perthyn cerddi plant Gwyn Thomas yntau. Wrth ymateb i gywair gobeithiol y cerddi plant, gofynna Alan Llwyd, er enghraifft, 'Onid yw'n credu, fel Wordsworth gynt, yn naioni cynhenid y plentyn, cyn i gymdeithas lygru'r daioni

hwnnw?'<sup>23</sup> Eto, fel y datgelir yn y drafodaeth sy'n dilyn, wrth gymharu gwaith Gwyn Thomas â cherddi sy'n delfrydu plentyndod mewn dull nodweddiadol Ramantaidd daw gwahaniaethau pwysig yn y ffordd y syniai am natur plentyndod a diben canu am fyd plant i'r amlwg.

Daioni cynhenid y plentyn yw cynsail agweddau Rhamantaidd at blentyndod. Yn llinell agoriadol *Emile* (1762), ysgrif Jean-Jacques Rousseau ar addysg, y mynegwyd y syniadaeth ddylanwadol hon groywaf. 'Da yw popeth fel y daw o ddwylo Awdur y cwbl, dirywio a wna yn nwylo dyn,' meddai Rousseau,<sup>24</sup> ac yn wyneb effaith diwydiannu a threfoli'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ar yr amgylchedd naturiol, datblygodd yn sail i syniadaeth newydd ynghylch daioni dilwgr y plentyn. Esgorodd ar farddoniaeth yn dyrchafu plentyndod, megis 'Ode: Intimations of Immortality' (1807) William Wordsworth y mae Alan Llwyd yn dwyn i gof uchod, sy'n mynegi bod babanod a phlant yn nes at darddiad nefolaidd yr enaid nag oedolion:

Heaven lies about us in our infancy!  
Shades of the prison-house begin to close  
Upon the growing Boy,  
But he beholds the light, and whence it flows,  
He sees it in his joy;  
The Youth, who daily farther from the east  
Must travel, still is Nature's Priest,  
And by the vision splendid  
Is on his way attended;  
At length the Man perceives it die away,  
And fade into the light of common day.<sup>25</sup>



Dwysaodd dylanwad syniadaeth Ramantaidd Rousseau, Wordsworth ac eraill yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg wrth i syniadau athronyddol ynghylch datblygiad yr hunan a thwf addysg gyfundrefnol arwain at wahaniaethu cynyddol rhwng oedolion a phlant. Yn hytrach na chael eu magu o fewn y cartref a chyfrannu'n ifanc at economi'r teulu, daethpwyd i feddwl bod angen trin plant ar wahân, eu haddysgu mewn ysgolion, a'u harbed rhag llafur a gwaith nes eu bod wedi cyrraedd eu llawn dwf. Ar lefel gysyniadol, arweiniodd y gwahaniaethu hwn at ddyrchafu plentyndod i dir dihalog, anghyraeddadwy yr hiraetha pobl mewn oed amdano. Yng Nghymru, dylanwadodd y syniadau hyn ar gywair telynegol beirdd megis T. Gwynn Jones.<sup>26</sup> Yn wir, mae hirhoedledd y wythïen Ramantaidd i'w gweld hyd heddiw ym mhoblogrwydd ei delyneg fer, 'Lle Bach Tlws', â'r ffordd y mae'n clymu plentyndod, hudoliaeth a'r dychymyg ynghyd. Fe'i hargraffwyd yn y flodeugerdd *Hoff Gerddi Natur Cymru* yn 2011,<sup>27</sup> er enghraifft, a cherdd hudolus arall am blentyndod nad oes pall, yn ôl pob golwg, ar ei hapêl yw 'Yn Nheyrnas Diniweidrwydd' gan Rhydwen Williams. Ymddangosodd y gerdd hon droeon dros yr hanner canrif diwethaf mewn cyfrolau a blodeugerddi,<sup>28</sup> gosododd Eric Jones y geiriau i gerddoriaeth gorawl yn 2015<sup>29</sup> ac fe'i chanwyd gan sawl parti cerdd dant dros y blynyddoedd.<sup>30</sup>

Yn nhelyneg Rhydwen Williams, dychmygir teyrnas ddelfrydol lle 'Mae'r sêr yn fythol syn; / Mae miwsig yn yr awel, / A bro tu hwnt i'r bryn.'<sup>31</sup> Mae yno hud, rhyfeddod a rhyddid lle diddymir pob anghyfiawnder:

Yn nheyrnas diniweidrwydd  
Mae'r llew yn llyfu'r oen;  
Ni pherchir neb am linach,  
Na'i grogi am liw ei groen.<sup>32</sup>

Teyrnas nefolaidd Gristnogol sy'n dyrchafu plant yw hon, gan mai hwy â'u 'llygaid llawen' a'u '[b]ochau iach' yn unig all ymdeimlo â'r reddf gynhenid i 'brofi'r syndod' ac 'i weld y wyrth'. Geiriau Crist wrth y disgyblion a geisiodd rwystro plant bychain rhag dyfod tuag ato yw cysail y gerdd hon, wrth gwrs: rhaid ymddiried yn ddiamod, megis plentyn, er mwyn derbyn teyrnas Duw.<sup>33</sup> Mae'r gerdd hefyd yn adlewyrchu syniadau Rhamantaidd wrth gyfeirio at warchod plant o fewn pyrth y deyrnas a synied am blentyndod fel cyfnod diofid a phleserus. Eto, mae'r cywair Rhamantaidd hwn yn taro'n boenus o ingol o ystyried y cyhoeddwyd 'Yn Nheyrnas Diniweidrwydd' gyntaf gwta ddeufis wedi trychineb Aber-fan.

Nid oes cysylltiad testunol uniongyrchol rhwng y gerdd a'r drychineb a laddodd 116 plentyn a 28 oedolyn pan lithrodd tomen lo o'r mynydd dros Ysgol Pantglas ym mhentref Aber-fan, 21 Hydref 1966. Ond fel y noda golygyddion *Dagrau Tost: Cerddi Aber-fan*, roedd y bardd yn frodor o ardal gyfagos ac yr oedd eisoes wedi ymateb i'r drychineb o'r pulpud ddyddiau wedi'r distryw.<sup>34</sup> Mae cyd-destun ymddangosiad cyntaf y gerdd ar dudalennau *Baner ac Amserau Cymru* dridiau cyn y Nadolig y flwyddyn honno,<sup>35</sup> yn dwysáu'r cyferbyniad nodweddiadol Ramantaidd rhwng diogelwch diniwed plentyndod a byd oer a diddychymyg oedolion. Dyma gyferbyniad sy'n creu bwlch rhwng plant ac oedolion na ellir ei gyfannu ac o greu'r bwlch, synnir am blant o bell a thrwy lygad y dychymyg. Taflunnir arnynt ddelfrydau ac ofnau oedolion sydd am weld plentyndod megis hafan ddiogel rhag llygredigaeth y byd. Ym mhennill olaf 'Yn Nheyrnas Diniweidrwydd', nid mydryddu adnodau'r Beibl ynghylch mynediad plant i deyrnas Duw yn unig a gawn, felly. Drwy fynegi mai 'Gwyn fyd pob plentyn bach / Sy'n berchen llygaid llawn / A phâr o fochau iach!' mae'n creu cyswllt hanfodol rhwng plant a dedwyddwch a diniweidrwydd sy'n eu gosod y tu hwnt i gyrraedd y rhai hynny a saif wrth y pyrth yn 'rhy hen' a 'rhy gall' i weld eto drwy lygaid plentyn.

Wrth gyfosod telyneg Rhydwen Williams a cherddi Gwyn Thomas gwelwn bwyslais tebyg ar allu plant i weld y tu hwnt i'r materol ac ar geisio ail-greu drwy farddoniaeth y wefr o weld megis plentyn am y tro cyntaf. Fel Rhydwen Williams, gwêl Gwyn Thomas wrthgyferbyniad sylfaenol rhwng gallu plant i weld yn greadigol a dychmygus a dallineb cymharol oedolion. Yn y gerdd 'Cyrrens' (*Enw'r Gair*, 1972), cyferbynnir dau ddull o weld, y naill yn ffigurol ac yn ddychmygus (y plentyn) a'r llall yn llythrennol ac yn gaeth i amgylchiadau byw a bod (yr oedolyn). Ysgogwyd y gerdd gan duedd ei ferch fach chwe wythnos oes i dawelu pan gâi ei gosod o flaen pâr o lenni (neu 'gyrtens') llaes, patrymog:

'Cyrrens'

Yn chwech wythnos oed, fel y gŵyr y cyfarwydd,

Nid ydyw'n rhwydd dod o hyd i ddim yn y byd

Sydd hanner mor ogoneddus â

Chyrrens.<sup>36</sup>

Mae'r gwahaniaeth mydryddol rhwng 'Yn Nheyrnas Diniweidrwydd' a 'Cyrrens' yn amlwg, wrth reswm. Mae'r naill yn delyneg reolaidd ei mesur a'r llall yn gerdd rydd, afreolaidd ei hodlau a'i lled-gynganeddu. Ond gellid dadlau eu bod ill dwy'n gwahaniaethu rhwng gallu plant i ryfeddu a dallineb oedolion yn yr un modd. Baban, meddai Gwyn Thomas, yn unig all syllu ar y llenni gan sylwi:

[...] ar eu sefydlogrwydd,

Eu lluniaidd berffeithrwydd;

Ymateber i'w ffurfiau *llen-gar*

A'u hofran llydan myfyrgar;

Ond tebygrwydd arwynebol yn unig sydd rhwng y cerddi hyn, mewn gwirionedd, gan i'r ddwy gerdd ddeillio o ganfyddiadau pur wahanol ynghylch plant a phlentyndod. Nid dotio

at ddiniweidrwydd y plentyn a'i agosrwydd cynhenid, tybiedig, at natur, hud a lledrith a wna Gwyn Thomas. Yn hytrach, y mae'n ffoli ar y funud, ar y foment o sylwi gan fwynhau'r meddyliau chwareus ac ysgafn ddychanol a ddaw yn sgil hynny. Mae'n chwarae â 'ffurfiau llen-gar' y cyrtens gan gydnabod yn ddireidus eu cysylltiadau 'Â'r pethau cyntaf megis t'wllwch a golau'. Yn wir, gall edrych ar lenni, meddai, arwain 'Y meddwl yn ddwys i fyfyrrio ar Nirfana', mangre nefolaidd Bwdistiaeth, hyd yn oed. Ond rhag i neb amau ei fod o ddifrif, mae'r ieithwedd ddyrchafedig yn amlygu'r cellwair bwriadol sydd wrth wraidd y fath ffugathronyddu.

Gall y cyfeiriad hwn at Nirfana, lle sy'n rhydd rhag gofid a phoen, beri i rywun feddwl am ennyd am deyrnas diniweidrwydd Rhydwen Williams, efallai. Ond nid yw 'Cyrtens', na barddoniaeth plant Gwyn Thomas fel cyfangorff yn cludo'r plentyn i wynfyd pell gan ddymuno iddo aros yno, o olwg y pyrth, gyhyd ag sy'n bosibl. Nid delweddau Rhamantaidd o blant wedi eu llwytho â dyheadau, ofnau a hiraeth oedolion am fyd heb gyfrifoldeb na chur a gawn gan Gwyn Thomas. Yn hytrach, mae'r plentyn yn gyfrwng iddo weld a sylwi'n fanylach ar y byd o'i gwmpas ac ar gymhlethdod hanfodol y natur ddynol. Yn wir, mae'n dychanu'r gwahaniaethu ystrydebol a wneir rhwng plant ac oedolion drwy honni bod pawb 'hÿn na'r oedran a nodwyd' (h.y. chwe wythnos oed) 'wedi'ch marcio â threialon bywyd' ac na allant, yn sgil hynny, werthfawrogi hyfrydwch y llenni. Siarad â phawb nad ydynt yn fabanod diymadferth a wna felly wrth gloi'r gerdd:

Efallai, 'n anffodus, nad ydyw mor rhwydd

I chwi adnabod eu godidowgrwydd

Ac na chanfyddwch chwi ddim trwy hollbresennol sens

Ond defnydd yn hongian yn blaen, fel cyrtens.

Drwy ddireidi godidowgrwydd y cyrtens, y cymysgu cyweiriau ieithyddol bwriadol a'r camacennu doniol cawn gip ar agwedd sylfaenol ar ganfyddiad Gwyn Thomas ynghylch plant. Nid gwrthrychau anghyffyrddadwy i dafluio arnynt hiraeth a dyhead yw plant iddo. Yn hytrach, fe'u gwêl fel pobl nad ydynt wedi cyrraedd aeddfedrwydd llawn, wrth gwrs, ond sydd o anghenraid, fel pawb o bob oed, yn gybolfa o ffaelecteddau a rhinweddau, goleuni a thywyllwch.

Mae yma 'sens', neu synnwyr cytbwys a gonest i'r weledigaeth hon ynghylch plant sy'n ymwrthod â Rhamantiaeth ddelfrydgar. Mae hon yn weledigaeth sy'n osgoi sentimentalrwydd yn yr hyn a ddywed am blant, ac yn y modd y'i mynegir. Gwêl R. M. Jones, er enghraifft, 'wrthramantiaeth wrthsynhwyrus' yn y modd y mae Gwyn Thomas yn 'dadarferu rhythm' ac yn dychanu iaith ymhongar a barddonllyd.<sup>37</sup> Gyda'i rythmau stacato ansefydlog a'i fydryddu anghyson, teifl y darllenwydd oddi ar ei echel a'i atgoffa nad lle cysurlawn, diogel yw byd barddoniaeth ond lle rhyfedd ac anghyfforddus yn aml. Yn yr un modd gellir ystyried ei amryfal gerddi am anifeiliaid, a'r gyfrol ryfeddol o swreal a luniodd am gathod, *Sawl Math o Gath* (2002), fel mynegiant o'r un awydd direidus i ansefydlogi.<sup>38</sup> Mae cysylltu plant a byd natur, wrth gwrs, yn un o drosiadau poblogaidd Rhamantiaeth (cofier am y llanc megis 'Nature's Priest' gan Wordsworth uchod). Ond nid er mwyn mynegi rhyw gyd-ddealltwriaeth cynhenid rhwng diniweidrwydd plant ac anifeiliaid y maes y denwyd Gwyn Thomas i ganu am greaduriaid, ond er mwyn chwarae, peri syndod neu ddathlu llawenydd. Dwyseir ei ymateb ecsentrig i fyd natur gan ddarluniau yn aml iawn, megis darluniau *Sawl Math o Gath* gan Jac Jones a brasluniau lled-haniaethol Lois Morris i gyd-fynd â cherddi megis 'Pterodactyl' a 'Parot' yn *Enw'r Gair*.<sup>39</sup>

Gweld â gonestrwydd a hiwmor a wna Gwyn Thomas yn y cerddi hyn a phriodol yw ei gymharu â'r llenor mawr arall hwnnw yr oedd plentyneiddiwch yn rhinwedd iddo. Fel

Gwyn Thomas, nid cofio plentyndod yn unig a wnâi'r prifardd a'r llenor plant T. Llew Jones ond ei deimlo, a'r teimlad hwnnw a hogai ei feddwl a'i ddychymyg:

[...] rwy'n meddwl yn siŵr erbyn hyn fod rhan ohonof wedi aros yn blentyn er i'r gweddill ohonof dyfu i oed gŵr. Hynny yw, mae'r byd a grëais i mi fy hun pan yn blentyn – wrth ddarllen a darllen a darllen – yn rhan ohonof fi o hyd. Nid atgof mohono, cofiwch [...] Mae'r plentyn ynof yn fy ngalluogi i 'gredu' fy storïau fy hun! Trwy hynny mae'n haws i ddyn fod yn ddidwyll wrth sgrifennu [...] <sup>40</sup>

Nid un i ddelfrydu'n sentimental am blant T. Llew ychwaith, ac roedd yn barod i gydnabod yr ofnau a'r bygythiadau sy'n taflu eu cysgodion dros ddyddiau plentyndod. <sup>41</sup> Ond mae'r modd y mynega ei ymateb i blant a phlentyndod yn ei farddoniaeth yn wahanol iawn i'r hyn a wna Gwyn Thomas yn ei gerddi ef. Rhythmau ansefydlog ac anghyson ac ieithwedd lafar ac ansafonol yw arfau Gwyn Thomas. Strwythur, mydr ac odl yw cyfrwng T. Llew Jones. Perthyn direidi a hiwmor i gerddi'r ddau fardd, ond fe'u ceir gan T. Llew o fewn ffiniau cyweiriau a rhythmau barddol cydnabyddedig. I T. Llew, celfyddyd i ddotio ati, i'w thrysori a'i chofio yw barddoniaeth. Meddai, er enghraifft, yn ei ragair i *Geiriau a Gerais*:

Mae'n debyg fod eisiau egluro pam y mae'r mwyafrif mawr o'r cerddi yn y casgliad hwn ar fydr ac odl – yn sonedau, telynegion ac yn y blaen, ac ychydig iawn yn y Wers Rydd a'r Wers Rydd Gynganeddol. Yr ateb syml yw bod cerddi ar fesur rheolaidd a rhai sy'n odledig yn llawer mwy tebygol o aros yn y cof.

Rhythmau'r cerddi, ynghyd â geiriau unigol neu gyfuniad o eiriau sy'n creu'r miwsig a wna gerdd yn gofiadwy, ac mae ar ei gorau pan fydd yn cael ei llefaru'n uchel ac yn mynd o'r tafod i'r glust ac o'r glust i'r galon. <sup>42</sup>

Blodeugerdd bersonol gan T. Llew o gerddi canadwy gan feirdd megis Crwys, Alun Cilie, B. T. Hopkins a T. Llew ei hun yw *Geiriau a Gerais*, a phob un yn ateb y meini prawf uchod. Eto, yn groes i'r disgwyl, dewisodd gerdd rydd gan Gwyn Thomas i agor y gyfrol:

‘Beth ydi Barddoniaeth?’

Barddoniaeth ydi

Bod mewn cors hyd at eich gwddw

Yno'n suddo, yno'n geirio,

A neb o gwbl yn gwrando.<sup>43</sup>

Nid yw'r llinellau hyn yn cynhyrchu'r ‘miwsig’ a wna cerdd yn gofiadwy i T. Llew. Efallai i'r hynafgwr ddewis cerdd Gwyn Thomas oherwydd i hiwmor sych ‘Beth ydi Barddoniaeth?’ a'i hergyd ynglŷn ag unigrwydd y bardd apelio ato. Neu, ac yntau hefyd yn ymddiddori mewn llenyddiaeth lafar, berfformiadwy, mae'n bosibl yr edmygai T. Llew y modd y ffrwynai Gwyn Thomas lithrigrwydd ac egni'r iaith lafar i greu barddoniaeth sy'n llefaru'n groyw, er nad o reidrwydd yn canu.

Mae llafaredd wrth wraidd llawer iawn o'i gerddi, wrth gwrs, a nifer o'i gerddi plant yn arbennig. Yn ‘Roedd yr Haul’ o *Enw'r Gair*, er enghraifft, ceir y ddeialog ysmala hon rhwng tad a'i fab bychan sydd, fel y nododd Alan Llwyd, fel pe bai'n ymateb yn chwareus i gerdd Dafydd Rowlands, ‘Dangosaf iti Lendid’ (1969):<sup>44</sup>

“Y gog, 'glywi di'r gog?”

“Dw i 'di blino.”

“Arhosa rŵan a sbïo

Ar sgleinio pell y môr.”

“Dwi ddim yn leicio.”

“Ddim yn leicio! Yli,

Mwynha dy hun y mwnci

Neu mi gicia’ i dy din di.”

Wedyn, rywfodd, ’doedd y lle

Ddim yn hollol fel pin mewn papur,

Nac ychwaith yn lle y gellid

Yn daclus ei roi o dan wydyr.<sup>45</sup>

Wrth fynnu lle i’r iaith lafar ymyrryd â rhythmau rheolaidd mydryddiaeth mae barddoniaeth Gwyn Thomas yn osgoi’r adleisio a’r ailweithio a all nodweddu canu telynegol Rhamantaidd ynghylch plentyndod. Yn hytrach, mae’n adnewyddu ac ailddyfeisio iaith barddoniaeth drwy wreiddio ei gerddi plant yn ei brofiad ei hun o gwestiynau, chwilfrydedd a gonestrwydd ffraeth y plant a oedd o’i gwmpas. Gwêl eu dyfeisgarwch yn destun rhyfeddod.

Ni ddylid tybio, fodd bynnag, mai diriedi a medrusrwydd plant yn unig a gâi sylw ganddo. ‘Thal hi ddim i fod yn or-sentimental am blant!’ meddai Gwyn Thomas wrth ddisgrifio sut y byddai ei ffrindiau ac yntau’n dringo i ben wal y festri ar ôl te parti’r Ysgol Sul er mwyn cael gweld mochyn yn cael ei ladd yn y lladd-dy a oedd gefngefn â’r capel.<sup>46</sup> Digon ysgafn yw’r hanesyn hwnnw a edrydd yn ei hunangofiant, ond gallai ei farddoniaeth fod yn ysgytwol o onest ynghylch creulondeb plant. Nid bardd a wadai ddioddefaint a gallu’r ddynoliaeth i ddifwyno a dinistrio oedd Gwyn Thomas, wedi’r cyfan. Canodd am ryfel a gorthrwm gan lunio, er enghraifft, y gerdd ‘Hiroshima’ yn 1965 a chyfrol yn ymateb i’r Holocaust yn 2007.<sup>47</sup> Er yr addfwynder a berthyn i fwyafrif ei gerddi plant gall, ar brydiau, fanylu ar greulonderau’r ifainc hefyd.



Yn y gerdd ‘Heno, Heno, Hen Blant Bach’,<sup>48</sup> er enghraifft, defnyddia batrwm yr hwiangerdd gyfarwydd a’i chysylltiadau â gofal a thynnerwch y berthynas rhwng oedolion a phlant i ganu am drais annynol dau fachgen ifanc. Drwy’r berthynas ryngdestunol rhwng yr hwiangerdd gefndirol a’r gerdd daw’r darllenydd i amgyffred arswyd yr hyn a ddisgrifir. Nid cyfeiriad llenyddol yn unig mo’r hwiangerdd, ond fframwaith i’r darllenydd greu ystyr o’r geiriau sy’n cyfodod cysur suo plentyn i gysgu a braw trais difeddwl. Plant yn mynd i’w gwllâu a geir yn yr hwiangerdd wreiddiol, ond dau ‘gwb’ deg oed sy’n ‘curo, curo’ ar ddôr hen wraig fach yn y gerdd hon, ac yna’n ei churo hithau’n ddu-las er mwyn dwyn £12 oddi arni. Yn y pennill olaf, datgelir mai prynu fferins a wnaethant â’r arian cyn mynd adref i gysgu’n dawel. Yn yr adlais hwn o linellau diniwed y hwiangerdd cofia’r darllenydd mai plant ydynt o hyd, heb yr aeddfedrwydd i ddeall arwyddocâd nac effaith yr hyn a wnaethant.

Bymtheg mlynedd yn ddiweddarach dychwela Gwyn Thomas at yr un hwiangerdd yn y gerdd ‘Hen Blant Bach’,<sup>49</sup> ond y tro hwn, nid agor bwlch rhwng diogelwch yr hwiangerdd ac erchyllter trais plant yw amcan y rhyngdestunoli, eithr cadarnhau cysur yr hwiangerdd wreiddiol. Gŵr mewn oed sy’n traethu yn ‘Hen Blant Bach’ â throeon ei yrfa yn yr hen fyd yma wedi ei galedu. Eto, mae un olygfa o hyd sy’n tynnu deigryn i’w lygad, sef rhesaid o blant o’r uned feithrin yn mynd am dro ‘Mewn amwisgoedd o liw melyn / Llachar iawn, ar dennyn’:

Ac wrth eu gweld nhw

Yn gatrawd ddedia’ o ddiniweidrwydd

Y mae rhywun yn teimlo’n

Sicir ddigon fod yna

O hyd ryw obaith i ddyinion.

Yn yr olygfa syml hon caiff y bardd gadarnhad o ddaioni sylfaenol y ddynoliaeth ac o rym y plentyn i adnewyddu ysbryd oedolion. ‘Plant ydi’r byd yn ei adnewyddu ei hun’, meddai wrth fyfyrrio ynghylch rôl y plentyn yn ei fywyd creadigol.<sup>50</sup> Felly er gwaethaf gweithred ysgeler y ddau fachgen yn ‘Heno Heno Hen Blant Bach’, dychwela at y gobaith adnewyddol hwn yng nghwmni’r ‘Hen Blant Bach’. Dywed Alan Llwyd mai ‘bardd gobaith a ffydd ydyw, ac yn niniweidrwydd a llawenydd y plentyn y gwêl obaith dynoliaeth’.<sup>51</sup> Eto, gellid dadlau mai’r plentyn yn ei gyfanrwydd cymhleth yw ffynhonnell y gobaith hwn, nid ei ddiniweidrwydd na’i lawenydd yn unig.

Yn y gobaith sylfaenol, diamod hwn y mae Gwyn Thomas yn rhannu’r un weledigaeth ynghylch plant â’r llenor adnabyddus Ted Hughes. Gellid tynnu sawl cymhariaeth rhyngddynt a’u dylanwad sylweddol ar lenyddiaeth y Gymraeg a’r Saesneg. Anrhydeddwyd y ddau ar lefel genedlaethol, Gwyn Thomas yn Fardd Cenedlaethol Cymru rhwng 2006 a 2008 a Ted Hughes yn Fardd Llawryfog o 1984 hyd ei farwolaeth yn 1998. Rhoes y ddau hefyd le canolog i’r plentyn mewn cerddi am blant ac ar eu cyfer. ‘Every new Child is nature’s chance to correct culture’s error’, meddai Ted Hughes yn 1976,<sup>52</sup> ac yn nehongliad Lissa Paul o rôl plant yn ei lenyddiaeth mae adleisiau amlwg o weledigaeth obeithiol, adnewyddol Gwyn Thomas:

Ted Hughes remained faithful to the regenerative power of universal infantile, ‘Let those infant feet pound through the universe,’ he says at the end of one of his uncollected poems. Infant eyes could also be counted on to re-new the world, as could infant ears and infant voices, as in ‘Full Moon and Little Frieda’ where Hughes immortalises his young daughter. It’s dusk, the cows are coming home and the moon is rising. Little Frieda ‘listening, /A spider’s web, tense for the dew’s touch,’ experiences the power of language to renew:

‘Moon!’ you cry suddenly, ‘Moon! Moon!’

The moon has stepped back like an artist gazing amazed at a work

That points at him amazed.<sup>53</sup>

Tybir yn aml fod gan fardd a all gydio ym mhrofiad plant am ennyd a’i gyfleu ddawn arbennig i weld y byd trwy lygaid plentyn. Dyna rinwedd pennaf cerddi plant Waldo, yn ôl T. Llew Jones, er enghraifft. Meddai amdano, ‘Gweld trwy lygad plentyn y mae yn y cerddi i gyd, fel pe bai’r bardd – ar ôl tyfu i oedran gŵr – wedi llwyddo’n wyrthiol i gamu’n ôl i fyd meddwl a dychymyg plentyn.’<sup>54</sup> Amhosibl, wrth gwrs, yw gwyrth o’r fath a ninnau oll ynghlwm wrth ein safbwynt goddrychol ein hunain. Sylweddola Ted Hughes hynny, a gwelwn nad ceisio creu golygfa o bersbectif plentyn a wna yn ‘Full Moon and Little Frieda’. Yn hytrach, cryfder y gerdd yw iddi fanylu ar brofiad plentyn drwy lygaid oedolyn a rhoi i’r profiad hwnnw o weld arwyddocâd rhinweddol, cadarnhaol. Yr ymwneud rhwng oedolyn a phlentyn yw’r ysbrydoliaeth i Hughes ac i nifer o feirdd eraill yr ugeinfed ganrif, megis Charles Causley (cyfaill iddo), yr oedd y berthynas a’r cyferbyniad rhwng plant ac oedolion yn ysgogiad parhaus i’w gweledigaeth farddol.<sup>55</sup>

Mae’r berthynas honno yn ganolog i greadigrwydd Gwyn Thomas yntau. Gweld a sylwi ar blant o’i safle fel oedolyn a wna. ‘[M]anylder ei ganfyddiad’ yw ei gryfder, ym marn Bryan Martin Davies a ganmolodd ‘y gallu i sylwi ar bethau bychain, ac i weld ynddynt yr arwyddocâd arbennig hwnnw sy’n cyfoethogi dychymyg y darllenydd’.<sup>56</sup> Mae’r dull hwn o baentio haenau o liw ac ystyr ar olygfeydd beunyddiol yn gyffredin i waith Gwyn Thomas a Ted Hughes fel ei gilydd. Gwêl Hughes yr un egni a chywreinrwydd ar waith yn harddwch y lloer a pharabl y plentyn, ac felly hefyd Gwyn Thomas wrth iddo gyplysu chwerthiniad baban a llewyrch y sêr yn ‘Y Sêr yn eu Tynerwch’:

A dyma’r fam yn mynd â’i baban

Allan, am y tro cyntaf, i'r nos,  
Ar yr awr pan oedd yr awyr yn dechrau sbecian  
Yn fân, fân, fywiog.  
A dyma'r bach yn sbïo, sbïo ar ryfeddod y ffurfafen  
Ac yna'n dechrau chwerthin,  
Byrlymu sêr a gyrglo goleuadau.  
Roedd yr ardd fel pe bai'n llawn o swigod llawenydd  
A'r rheini'n codi'n lliwiau; llewychiadau  
Yn bownsio'n wreichion o gwmpas y nos.<sup>57</sup>

Â'r gerdd yn ei blaen i nodi tynged drist y mab a dyfodd i fod 'alcoholig yn Awstralia'. Ond eto, erys y foment hon rhwng rhiant, mab a'r sêr yn foment gyfriniol bron yng nghof y fam hyd y diwedd. 'Trwy dagrau pethau' daw'r cof am yr ennyd hwn i'w hatgyfnerthu.

Mewn cerddi fel 'Y Sêr yn eu Tynerwch' a 'Croesi Traeth' (un o'i gerddi mwyaf adnabyddus) mae canu am blant a phlentyndod yn rhoi'r cyfle i'r bardd athronyddu a myfyrio ar fyrhoedledd y foment a'i arwyddocâd yn y cof. Mewn cerddi eraill rhydd y cyfle iddo chwarae â ffiniau barddoniaeth mewn modd tebyg i'r genhedlaeth o feirdd poblogaidd Saesneg a ddaeth i amlygrwydd yn y 1970au.<sup>58</sup> Canolbwyntiai Michael Rosen, Roger McGough ac eraill ar ganu'n uniongyrchol a dealladwy i'r hen a'r ifainc am ddigwyddiadau bob dydd, agos-atoch, cyfoes mewn cerddi llafar, perfformiadwy, wedi eu britho â jôcs, slang a direidi digywilydd. Ystyrier, er enghraifft, y gyfrol a luniodd McGough a Rosen ar y cyd yn 1979, *You Tell Me*. Mae'r cerddi oll yn unedau hunangynhaliol o sylwgarwch doniol a ffraeth i bethau cyffredin bywyd, o ddiwrnod cyntaf yr ysgol i ddiplaniad ffyrnc o'r gegin.

Dyma gerdd fer ddiennw gan Michael Rosen, er enghraifft, sy'n cwestiynu, fel plentyn, pam yr ydym yn dilyn arferion diystyr:

When we go over  
to my grandad's  
he falls asleep.

While he's asleep  
he snores.

When he wakes up  
he says,  
'Did I snore?  
did I snore,  
Did I snore?'

Everybody says, No,  
you didn't snore.

Why do we lie to him?<sup>59</sup>

Cafwyd defnydd tebyg o araith uniongyrchol i gyfleu hiwmor iaith bob dydd gan Gwyn Thomas hefyd, megis yn 'Roedd yr Haul' a ddyfynnwyd eisoes. Fe'i ceir hefyd yn adlewyrchu, fel Michael Rosen uchod, natur ailadroddus yr iaith lafar:

Teithio mewn car, a dau fab bach yn y cefn  
Yn ceisio cadw trefn trwy gyfrif moto beicia',  
Ceisio eu cyfri'n rhuo heibio.

"Fi bia' hwn'na," meddai'r lleia;

“A finna’ hwn’na,” meddai’r mwya’.

“Un i mi.” “Ac un i minna’.”<sup>60</sup>

Ond nid techneg nac ieithwedd yn unig sy’n cysylltu Gwyn Thomas a beirdd megis Michael Rosen. Yn hytrach, y brif ddolen gyswllt yw’r modd y mae canu am blant a phlentyndod yn rhoi iddynt ryddid mynegiant, llafareidd-dra a’r hyfdra i wthio ffiniau a chwalu canfyddiadau traddodiadol ynghylch yr hyn sy’n briodol i fardd ganu amdano. Eu hamcan yw dod â’u barddoniaeth mor agos â phosibl at brofiad a dealltwriaeth y gynulleidfa. Dywedodd Gwyn Thomas, er enghraifft, nad oes ganddo ‘ddiddordeb mewn gosod penbleth i bobl; dw i eisiau iddyn nhw ddod at y teimlad neu’r meddwl sydd yn y gerdd. Yn fan’no mae fy niddordeb i.’<sup>61</sup> O ganlyniad i’r uniongyrchedd hwn mae i gerddi Gwyn Thomas a’i gyfoeswyr Saesneg iaith gyffredin (neu *lingua franca*) sy’n cyfannu’r bwlch tybiedig rhwng oedolion a phlant. Byd plant a phrofiadau plentyndod sy’n cymell llawer o’u canu, a hynny am ei fod yn cynnig cyfle i ddweud rhywbeth newydd wrth yr hen a’r ifainc fel ei gilydd, fel yr eglura Ted Hughes:

So in writing for children, it seems to me there’s an attractive possibility – of finding, in some way, on some wavelength of imagery and feeling, a *lingua franca* – a style of communication for which children are the specific audience, but which adults can overhear. In other words, it reaches adults – maybe – because assuming this is not for them, they suspend defences and listen – in a way secretly – as children. So long as the affection is there.<sup>62</sup>

Un testun gan Gwyn Thomas sy’n amlygu ei allu yntau i gyfathrebu â’r gynulleidfa ddeuol hon, yn blant ac oedolion, yw’r gerdd ‘Drama’r Nadolig’. Ymddangosodd gyntaf yn y gyfrol *Croesi Traeth* yn 1978 a gellir amgyffred ynddi y rhyddid a’r mwynhad a gâi ef, fel Ted Hughes yn y Saesneg, o synied am blant ymhlith cynulleidfa’r gerdd.<sup>63</sup> Meddai Keith


Cushman am Hughes, er enghraifft, 'The act of addressing an audience that contains children is both relaxing and liberating to his imagination'.<sup>64</sup> Mae ysgrifennu am blant ac ar eu cyfer yn rhyddhau Gwyn Thomas yntau i ganolbwyntio ar fanylion y presennol a'u cyfryngu mewn modd sy'n cysylltu â'r hen a'r ifainc

Cerdd hoffus, annwyl yw 'Drama'r Nadolig' am y paratoi, y miri a'r fendith a ddaw bob blwyddyn yn sgil perfformiad plant yr Ysgol Sul o ddrama'r geni. Plant yw'r prif gymeriadau, yn ddoethion, angylion a milwyr anystywallt Herod yn y festri. Ond er mai plant yw'r prif gymeriadau, o safbwynt yr oedolion sy'n eu gwyllo yr adroddir y gerdd. Yn wir, drwy ei chynnwys yn *Croesi Traeth* cyfyd ansicrwydd ai cerddi i blant, neu amdanynt, ydyw. Fel yr awgrymwyd eisoes, dyma ansicrwydd sydd wrth wraidd mwyafrif cerddi plant Gwyn Thomas, a hynny'n cymylu'r ffin rhwng llenyddiaeth plant ac oedolion. Gan nad yw'r bardd yn datgan a oes i'r gerdd gynulleidfa darged benodol, mae'r darllynydd (o ba oed bynnag y bo) yn rhydd i ymateb iddi ar ei delerau ei hun. Ond wrth ychwanegu darluniau Jac Jones at y gerdd a'i chyhoeddi'n gyfrol yn 1989, mudodd y testun yn fwy sicr i fyd llenyddiaeth plant drwy gymryd arno ffurf y 'stori llun' (*picturebook*). Wedi'r cyfan, ar gyfer plant iau o dan saith oed y cynhyrchir straeon llun yn bennaf, sef testunau lle hawlia'r geiriau a'r darluniau sylw cyfartal gan y sawl sy'n darllen neu'n gwyllo ac yn gwranddo ar y stori. Llyfrau o'r fath yw rhai o destunau mwyaf adnabyddus llenyddiaeth plant ryngwladol, wrth gwrs, megis *The Gruffalo* (1999) gan Julia Donaldson ac Axel Scheffler (cyf. Cymraeg *Y Gryffalo*) neu *The Very Hungry Caterpillar* (1969) gan Eric Carle (cyf. Cymraeg *Y Lindysyn Llwglyd Iawn*).

Yn ogystal â bod yn atyniadol a lliwgar, nid addurn i'r geiriau yn unig yw'r darluniau mewn testunau o'r fath. Gall stori llun ymestyn sgiliau gwybyddol y plentyn (a'r oedolyn sy'n cynorthwyo â'r darllen) i ddarllen rhwng y llinellau a meddwl yn greadigol am y berthynas rhwng y gair a'r llun, gan ddeall bod mwy nag un ffordd i ddehongli pob golygfa. Yn *Rosie's Walk* gan Pat Hutchins a ymddangosodd gyntaf yn 1968,<sup>65</sup> er enghraifft,

gwahoddir y darlennydd i lenwi'r bylchau rhwng y geiriau a'r lluniau. Mae'r testun ysgrifenedig yn disgrifio taith ddigyffro iâr ar draws buarth fferm ond mae'r lluniau'n adrodd stori amgen am ymdrechion trwsogl ac aflwyddiannus y llwynog i'w dal.

Drwy addasu cerdd 'Drama'r Nadolig' yn stori llun, fe'i trosglwyddir felly i genre neilltuol a chanddo ei nodweddion a'i arferion ei hun. Rhennir y gerdd yn llinellau neu gwpledi fesul tudalen, amrywir eu lleoliad a'u cyfosod â lluniau lliw sy'n darlunio agwedd arbennig ar y geiriau, gan hepgor rhai manylion ac ychwanegu eraill. Sylwer, er enghraifft, ar yr ymdrech, y prysurdeb, a'r balchder hefyd, a ychwanegir at y testun gan y modd y darlunnir osgo'r wraig hon wrth iddi '[b]wytho'r Nadolig i hen grysau':





Ffigur 1: *Drama'r Nadolig* [Hawlfraint: Cyhoeddiadau Barddas. Gwyn Thomas a Jac Jones, *Drama'r Nadolig* (Cyhoeddiadau Barddas, 1989), t. 5.]<sup>66</sup>

Nid bychanu'r gerdd na'i diraddio mewn unrhyw ffordd a wna'r trosi hwn i fyd llên plant. Eithr yn y briodas rhwng gair a llun, a'r posibilïadau ac ystyron newydd a gyfyd yn sgil y berthynas honno, gwelwn gyfoethogi a chryfhau lens chwyddwydr Gwyn Thomas.

Mae 'Drama'r Nadolig' yn gerdd sy'n dathlu plant, ymdrechion oedolion ar eu rhan, a'r fendith a ddaw i bawb o rannu cwmnïaeth a chymuned. Nid delfrydu a hiraethu Rhamantaidd a geir yma, na gresynu at y cyferbyniad rhwng daioni'r plentyn a drygioni'r byd. Yn hytrach, mae canfyddiad Gwyn Thomas ynghylch plant a phlentyndod yn fwy cynhwysfawr a democrataidd na hynny. Dathlu cyfraniad plant yn eu diniweidrwydd, eu gwybodaeth gyfyng, eu gonestrwydd a'u doniolwch, i fywyd yr oedolion o'u cwmpas a wna 'Drama'r Nadolig' a'i gerddi plant yn gyffredinol. Ymhellach, drwy fanylu ar blant sy'n profi popeth o'r newydd, sylweddola'r bardd fod modd dadebru gallu oedolion i ryfeddu, rhinwedd a rydd egni i ddigwyddiadau cyffredin ac anghyffredin ein bywydau beunyddiol. Meddai Gwyn Thomas ei hun:

Y peth sy'n hanfodol yn y dychymyg ydi rhyfeddod, y gallu i ryfeddu at bethau bywyd ac i fynegi'r rhyfeddod hwnnw. Nid rhyfeddu at y prydferth yn unig, ydi hwn, ond rhyfeddu at yr hyll a'r creulon a'r ofnadwy yn ogystal. Mae'r gallu yma i ryfeddu gan blant, mae ganddyn nhw'r gallu i edrych ar bethau sy'n gyfarwydd i bobol mewn oed a gweld rhyfeddod ynddyn nhw [...] Dydi beirdd a llenorion gwir fawr ddim yn llwyr golli'r gallu yma i ryfeddu, hynny ydi, maen nhw'n dal i gadw diniweidrwydd trwy eu dychymyg.<sup>67</sup>

Amcan Gwyn Thomas mewn cerddi fel 'Drama'r Nadolig' yw galluogi'r darllenydd hefyd, waeth beth y bo'i oed, i ymgolli yn y rhyfeddu hwn. Ys dywed Alan Llwyd,

‘Cadwodd Gwyn Thomas ei afael ar y lledrithiol a’r cyfareddol, a rhoes inni farddoniaeth sy’n glanhau ac yn iacháu.’<sup>68</sup> Eiliadau o gydfodoli, cydymdeimlo a chydgyfathrebu a gawn yng ngherddi plant Gwyn Thomas, a diau mai’r un awydd i ddwyn pobl ynghyd a ddylanwadodd ar ei ddull o addasu hanesion a chwedlau Cymru ar gyfer yr ifainc. Mewn cyfrolau heirdd ar y Mabinogi, Chwedl Taliesin ac yn ddiweddarach Dafydd ap Gwilym, Madog, Arthur a Llywelyn ein Llyw Olaf fe’n gwahoddir i ryfeddu at ein gwaddol diwylliannol a chyd-ddysgu a chofio straeon hanesyddol a chwedlonol.

Yn achos y chwedlau, cafodd ddeunydd crai parod nad oedd angen mwy nag ystwytho ieithyddol er mwyn eu gwneud yn addas ar gyfer darllenwyr ifainc. Ond yn achos y cyfrolau ynghylch cymeriadau hanesyddol neu led hanesyddol, gwelwn ei greadigrwydd ar waith mewn modd bwriadus a dyfeisgar. Wrth gyflwyno *Stori Dafydd ap Gwilym* yn 2003, er enghraifft, eglura mai ei amcan oedd ‘creu argraff o Ddafydd ac o’i gyfnod ond heb gaethiwo’r argraff honno i lythrenolrwydd gor-fanwl’.<sup>69</sup> Mynna mai dilyn arddull bucheddau’r Oesoedd Canol a wnaeth wrth adrodd am fywyd Dafydd ap Gwilym, a bod cynsail felly iddo ychwanegu digon o’i ‘ddychymyg ffyrnig’ ei hun i’r darlun.<sup>70</sup> Hyd yn oed yn achos cymeriad yr oedd iddo fwy o dystiolaeth hanesyddol, ni lesteirir ei greadigrwydd. Wrth gyflwyno’i gyfrol *Llywelyn ein Llyw Olaf*, er enghraifft, mae’n cydnabod ei ddyled i haneswyr dygn megis J. Beverley Smith, ond eglura mai man cychwyn yn unig oedd yr hanesyddiaeth honno iddo. ‘Rhyw fath o ymyrraeth â’r gorffennol ydi’r llyfr hwn,’ meddai, ‘a fi sydd i’w feio am yr ymyrraeth honno.’<sup>71</sup>

Ac yntau’n gweithio’n ymwybodol o fewn terfynau llenyddiaeth plant yn achos y cyfrolau hyn, synhwyrir bod yr ysgolhaig creadigol yn mwynhau’r rhyddid yr oedd hynny’n ei ganiatáu iddo. Gallai lacio llyffetheiriau ysgrifennu academiaidd er mwyn cyfathrebu’n fwy uniongyrchol â’i ddarllenwyr. Nid manylrwydd hanesyddol yr oedd ar ei gynulleidfa ifanc ei eisiau, yn ei farn ef, ond testun a fyddai’n ystwytho a lliwio’r gorffennol. Ei nod amlwg oedd

cynorthwyo'r ifainc i ddeall bod y gorffennol yn fythol bresennol ac meddai wrth fyfyrion ar y cyfrolau hyn yn *Llyfr Gwyn*:

[...] nid 'hanes' ydi unrhyw 'stori' gen i; fe geisiais ddiffinio'r defnydd terfynol fel 'rhyw fath o ymyrraeth â'r gorffennol'. Fe ddylai gwybodaeth am Lywelyn ysbarduno teimladau selog o Gymreictod mewn Cymry heddiw [...] Y mae hanes yn ein cyrraedd ni yn ein presennol, ynghanol ein 'hanes' ni ein hunain, ac fe all y presennol hwnnw wneud inni weld y gorffennol mewn modd sy'n ymddangos yn briodol iawn i ni.<sup>72</sup>

Yn ei ymdrech i gyfryngu'r gorffennol yn y llyfrau ffeithiol-greadigol hyn, mae'n mynegi'r un awydd ag a geir yn ei farddoniaeth i ysgogi'r darlennydd i deimlo a gweld, nid deall a rhesymu. Fel y dywed Joseph Clancy wrth gyflwyno cyfieithiadau o farddoniaeth Gwyn Thomas, 'What engages his imagination is the immediate experience – the sense impressions, thoughts, and feelings at one particular moment in the life of an individual.'<sup>73</sup> Yn y gerdd deyrnged 'I Gwyn Thomas', sylwer mai cynneddf y llenor a'r ysgolhaig i chwarae, hudo a pheri inni weld sy'n ganolog i Myrddin ap Dafydd yntau. Fel Clancy, pwysleisia'r sylw a rydd Gwyn Thomas ar hynodrwydd a neilltuolrwydd y foment, boed yn y gorffennol chwedlonol neu'r presennol:

Am fod golau dan dy bedolau di'n

Chwarae, Osian, dos ar farch a chroesi

Degawdau'r dŵr [...]

Ond rho ynom angerdd drwy dy gerddi

I weld y gwefrau, gwneud i'r eiliad gyfri.<sup>74</sup>

Mae plant a phlentyndod yn gyfryngau sy'n galluogi Gwyn Thomas, a ninnau yn sgil hynny, i weld y gwefrau hyn a'r eiliadau diflanedig sy'n dal ystyr ein bodolaeth. Yng ngeiriau Gerwyn Williams, mae'n 'gwneud ati i ddal eiliadau o fyw, un sydd yn ffilmio

dramâu bach bob dydd gyda camera fideo’i awen’,<sup>75</sup> boed wrth groesi traeth neu mewn festri capel. Mae sylwi ar blant yn rhoi iddo’r rhyddid a ddeisyfai i archwilio’r presennol a’i arwyddocâd. Dyna oedd i gyfrif am apêl llenyddiaeth America iddo hefyd. Meddai mai’r rhyddid ‘i beidio ag edrych ormod dros eu hysgwyddau, i fod yn eneidiau rhydd yw cryfder awduron llenyddiaeth America’.<sup>76</sup> Câi ei ddenu’n arbennig at lenyddiaeth ddinesig Allen Ginsberg a hydreiddiwyd, meddai, gan ‘bethau’r ugeinfed ganrif’:

I mi, yr oedd, ac y mae, hyn yn ddeniadol iawn; dyma rywun sydd wedi teimlo rhywbeth i’r byw mewn dinasoedd a chanddo’r geiriau i ddweud am hynny. I un yn byw mewn gwlad y mae iddi gymaint o orffennol, cymaint o draddodiad, cymaint o’r amaethyddol â Chymru – ac mae gen i lawer iawn, iawn i’w ddweud wrth y pethau hyn oll – roedd llenyddiaeth fel yna’n dangos posibiliadau cyffrous.<sup>77</sup>

Ni all ac ni fynn Gwyn Thomas daflu beichiau diwylliannol y Gymraeg oddi ar ei ysgwyddau, wrth gwrs, ac mae’r cyfrolau ar hanes a chwedloniaeth Cymru’n tystio i’w ymroddiad i gynnal y gorffennol yn rhan fyw o’r presennol. Yr hyn sy’n bwysig yw mai ar y presennol hwnnw y mae ei bwyslais. Mae plant a phlentyndod felly’n allweddol i’w lenyddiaeth gan eu bod yn gyfrwng iddo archwilio eiliadau o fyw. Nid yw plentyndod yn ddihangfa iddo ac ni ddyrchafa’r sawl a all adnabod godigowgrwydd cyrtens. Bardd a arbrofodd â chreadigrwydd iaith a’r dychymyg er mwyn amgyffred y presennol a’i arwyddocâd yw Gwyn Thomas ac ym myd plant cafodd ysbrydoliaeth barhaus.

*Caerdydd*

*SIWAN M. ROSSER*

---

<sup>1</sup> Gw. yn arbennig Alan Llwyd, *Gwyn Thomas*, Cyfres Llên y Llenor (Caernarfon: Gwasg Pantycelyn, 1984), t. 71. Hefyd, Dafydd Johnson, *Llenyddiaeth Cymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1998), tt. 128–9: ‘Roedd ei farddoniaeth gynnar yn ymateb i’r grymoedd difäol mewn byd technegol amheronol. Cafwyd gwrthbwynt i’r weledigaeth lem hon yn nes ymlaen yn ei gerddi hoffus am blant [...]’

<sup>2</sup> Mae’n briodol cyfeirio at ei gyfrol *Y Traddodiad Barddol* a luniwyd yn bennaf ar gyfer disgyblion chweched dosbarth ac a argraffwyd gyntaf yn 1976 (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru). Mae’r hyn a ddywed am Dafydd ap Gwilym, er enghraifft, yn nodweddiadol o amcan Gwyn Thomas y llenor a’r ysgolhaig i ysbrydoli yn ogystal ag i addysgu, t. 149: ‘Mae Dafydd ap Gwilym yn mynnu lle iddo’i hun yn hanes ein barddoniaeth, a hynny nid am ei fod o’n sefyll o’r naill du i’r traddodiad ond am fod ei bersonoliaeth a’i athrylith fel sblash llachar o baent yn ei ganol o.’

<sup>3</sup> Lluniodd Margaret Jones ddarluniau i gyd-fynd ag addasiadau a chyfrolau gwreiddiol gan Gwyn Thomas: *Y Mabinogi: cyfaddasiad newydd gan Gwyn Thomas* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru, 1984), *Culhwch ac Olwen: cyfaddasiad newydd gan Gwyn Thomas* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru, 1988), *Chwedl Taliesin: cyfaddasiad newydd gan Gwyn Thomas* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru, 1992), *Stori Dafydd ap Gwilym* (Talybont: Y Lolfa, 2003), *Madog* (Talybont: Y Lolfa, 2005), *Y Brenin Arthur* (Talybont: Y Lolfa, 2006), *Llywelyn ein Llyw Olaf* (Talybont: Y Lolfa, 2009). Cyhoeddwyd cyfieithiadau Saesneg o bob un o’r cyfrolau hyn ac eithrio *Llywelyn ein Llyw Olaf*, a chyfieithwyd *Y Mabinogi* i’r Ddaneg: *Det skjulte rige: fire historier fra Mabinogion* (London: Victor Gollancz, 1984) a Gaeleg yr Alban: *Am Mabinogi: Seann sgeulachdan as a'Chuimrigh air an ath-innse* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1984).

<sup>4</sup> Gwyn Thomas, darluniau gan Jac Jones, *Drama’r Nadolig* (Cyhoeddiadau Barddas 1989).

---

<sup>5</sup> Gerwyn Wiliams, “‘Yr Ianci o’r Blaenau’”: cerddi Gwyn Thomas 1962–81’, yn Jason Walford Davies (gol.), *Gweledigaethau: Cyfrol Deyrnged yr Athro Gwyn Thomas* (Cyhoeddiadau Barddas, 2007), t. 248.

<sup>6</sup> E.e., dewiswyd 11 cerdd gan Gwyn Thomas ar gyfer detholiad o gerddi addas ar gyfer disgyblion lefel TGAU yn 1995 (Geraint Percy Jones a Geraint Vaughan Jones (goln), *Yn Fyw Mewn Geiriau* (Llangefni: Y Ganolfan Astudiaethau Iaith, 1995), gan gynnwys ‘Damwain’ (t. 45), ‘Cudyll Coch’ (t.79) a ‘1914–18’ (t. 104). Cafwyd chwe cherdd ganddo hefyd yn y casgliad o farddoniaeth ar gyfer pobl ifainc: Eleri Ellis Jones (gol.), *Sbectol Inc* (Talybont: Y Lolfa, 1995), gan gynnwys ‘Y Ffatri’n Cau’ (t. 107). Bu’r gerdd honno yn destun gosod ar gyfer arholiadau TGAU Llenyddiaeth Gymraeg a Lefel A Cymraeg Ail Iaith yn gyson er hynny.

<sup>7</sup> Mererid Hopwood (gol.), *Cerddi’r Cof: Goreuon Barddoniaeth i Blant* (Caerdydd: Gwasg y Dref Wen, 2008), t. 101.

<sup>8</sup> W. H. Auden, ‘Introduction’, *A Choice of de la Mare’s Verse* (London: Faber and Faber, 1963), t. 18.

<sup>9</sup> Mererid Hopwood, “‘Pob un â’i lais ... Pobun â’i le” – Waldo Williams: Bardd Plant Cymru’, *Llên Cymru*, 38 (2014/15), 76.

<sup>10</sup> Gwyn Thomas, *Enw’r Gair* (Dinbych: Gwasg Gee, 1972).

<sup>11</sup> Gwyn Thomas, *Llyfr Gwyn*, Cyfres Llenorion Cymru (Cyhoeddiadau Barddas, 2015), t. 183.

<sup>12</sup> Gwyn Thomas, *Bywyd Bach*, Cyfres y Cewri 30 (Caernarfon: Gwasg Gwynedd, 2006), tt. 78–80.

<sup>13</sup> Ibid., tt. 57–8.

<sup>14</sup> Thomas, *Llyfr Gwyn*, t. 185.

<sup>15</sup> Thomas, *Bywyd Bach*, t. 59.

---

<sup>16</sup> Thomas, *Enw'r Gair*, t. 17.

<sup>17</sup> *Ibid.*, t. 23.

<sup>18</sup> Genesis 27:38.

<sup>19</sup> d.e., 'At yr Addysgydd', *Addysgydd* (Mai 1823), 56–7.

<sup>20</sup> *Ibid.*, 57.

<sup>21</sup> Gw. Dafydd Johnston (gol.), *Galar Beirdd: Marwnadau Plant* (Caerdydd: Tafol, 1993).

<sup>22</sup> Goronwy Owen, 'Awdl Farwnad Elin', yn A. Cynfael Lake (gol.), *Blodeugerdd Barddas o Ganu Caeth y Ddeunawfed Ganrif* (Cyhoeddiadau Barddas, 1993), t. 105; Robert ap Gwilym Ddu, 'Cofiant byr am Jane Elizabeth Williams', yn R. M. Jones (gol.), *Blodeugerdd Barddas o'r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* (Cyhoeddiadau Barddas, 1988), t. 65.

<sup>23</sup> Alan Llwyd, *Gwyn Thomas*, t. 98.

<sup>24</sup> Jean-Jacques Rousseau, *Emile, Jean-Jacques Rousseau – detholion*, cyf. R. M. Jones (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1963), t. 3.

<sup>25</sup> William Wordsworth, 'Ode: Intimations of Immortality from Recollections of Early Childhood', *Poems, in Two Volumes* (London: Longman, 1807). Dyf. o'r testun ar wefan *Poetry Foundation* [Ar-lein]. Ar gael: <https://www.poetryfoundation.org/poems/45536/ode-intimations-of-immortality-from-recollections-of-early-childhood>, cyrchwyd 12 Rhagfyr 2018.

<sup>26</sup> Am ymdriniaeth â chanu telynegol troad yr ugeinfed ganrif, gw. T. Robin Chapman, *Meibion Afradlon a Chymeriadau Eraill: Golwg ar y Dymer Delynegol, 1891–1940* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2004).

<sup>27</sup> Bethan Mair (gol.), *Hoff Gerddi Natur Cymru* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2011), t. 92.

<sup>28</sup> Ceir y gerdd yn Rhydwen Williams, *Barddoniaeth Rhydwen Williams: Y Casgliad Cyflawn, 1941–1991* (Cyhoeddiadau Barddas, 1991), tt. 127–8; Gwynn ap Gwilym ac Alan Llwyd (goln), *Blodeugerdd Barddas o Farddoniaeth Gymraeg yr Ugeinfed Ganrif*

---

(Cyhoeddiadau Barddas/Gwasg Gomer, 1987), tt. 289–90; Tudur Dylan Jones (gol.), *Fesul Gair: Blodeugerdd Barddoniaeth* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2015), tt. 58–9, ymhlith eraill.

Am hanes y gerdd a'i chyhoeddi yn llawn, gw. E. Wyn James a Christine James, *Dagrau Tost: Cerddi Aber-fan* (Cyhoeddiadau Barddas, 2016), t. 163.

<sup>29</sup> Catalog Eric Jones. Ar gael: <http://ericjones.cymru/catalog/>, cyrchwyd 7 Rhagfyr 2018.

<sup>30</sup> E.e., gosodiad Menai Williams ar y gainc 'Bwlchderwin' gan Haydn Morris, a recordiwyd gan Gôr Meibion Caernarfon yn 2004 ar gyfer albwm o'r enw *Yn Nheyrnas Diniweidrwydd* (Sain (Recordiau) Cyf.).

<sup>31</sup> Dyf. o'r testun yn James a James (goln), *Dagrau Tost*, t. 42.

<sup>32</sup> Ibid., t. 43.

<sup>33</sup> Gw. Marc 10:13–16; Mathew 19:13–15; Luc 18:15–17.

<sup>34</sup> James a James (goln), *Dagrau Tost*, t. 163.

<sup>35</sup> Rhydwen Williams, 'Yn Nheyrnas Diniweidrwydd', *Baner ac Amserau Cymru*, 22 Rhagfyr 1966, 6.

<sup>36</sup> Thomas, *Enw'r Gair*, t. 10.

<sup>37</sup> R. M. Jones, 'Gwyn Thomas a'r Barchedig Iaith', yn Walford Davies (gol.), *Gweledigaethau*, t. 287.

<sup>38</sup> Gwyn Thomas, *Sawl Math o Gath* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch, 2002).

<sup>39</sup> Thomas, *Enw'r Gair*, tt. 32, 39.

<sup>40</sup> d.e. 'Holi'r Prifardd T. Llew Jones a Mr J. Selwyn Lloyd', *Barn*, 210/211 (1980), 239.

<sup>41</sup> Mererid Hopwood, "'Fuoeh chi yng Nghwm Alltcafaf?" T Llew Jones fel bardd y plant bach a'r plant mawr', *Y Traethodydd*, 171 (2016), 81: 'nid oes gwadu nad yw "ofn" yn air mawr yn nychymyg T. Llew'.

<sup>42</sup> T. Llew Jones, *Geiriau a Gerais* (Llandysul: Gwasg Gomer, 2006), t. x.

<sup>43</sup> Ibid., t. 1.



- 
- <sup>44</sup> Gw. Llwyd, *Gwyn Thomas*, tt. 75–6.
- <sup>45</sup> Thomas, *Enw'r Gair*, t. 22.
- <sup>46</sup> Thomas, *Bywyd Bach*, t. 49.
- <sup>47</sup> Gwyn Thomas, *Y Weledigaeth Haearn* (Dinbych: Gwasg Gee, 1965), t. 41; *Teyrnas y Tywyllwch* (Cyhoeddiadau Barddas, 2007), t. 22.
- <sup>48</sup> Gwyn Thomas, *Darllen y Meini* (Dinbych: Gwasg Gee, 1998), t. 49.
- <sup>49</sup> Gwyn Thomas, *Profiadau Inter Galactig* (Cyhoeddiadau Barddas, 2013), t. 52.
- <sup>50</sup> Thomas, *Llyfr Gwyn* t. 185.
- <sup>51</sup> Llwyd, *Gwyn Thomas*, t. 98.
- <sup>52</sup> Ted Hughes, *Winter Pollen: Occasional Prose*, W. Scammell (gol.), (London: Faber 1976/1994), t. 149.
- <sup>53</sup> Lissa Paul, 'Ted Hughes and the "Old Age of Childhood"', yn Morag Styles, Louise Joy a David Whitley (goln), *Poetry and Childhood* (Stoke on Trent: Trentham Books, 2010), t. 42.
- <sup>54</sup> T. Llew Jones, 'Waldo – Bardd y Plant', yn James Nicholas (gol.), *Waldo* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1977), t. 30.
- <sup>55</sup> Gw. Debbie Pullinger, "'A child, barefoot: alone": innocence in Charles Causley's Poetry', yn Styles, Joy a Whitley (goln), *Poetry and Childhood*, tt. 91–9.
- <sup>56</sup> Bryan Martin Davies, 'Bardd o Bwys' (adolygiad o *Darllen y Meini*), *Taliesin*, 104 (Rhagfyr 1998/Ionawr 1999), 124.
- <sup>57</sup> Gwyn Thomas, *Croesi Traeth* (Dinbych: Gwasg Gee, 1978), t. 41.
- <sup>58</sup> Sylwer hefyd i Alan Llwyd gymharu barddoniaeth Gwyn Thomas a Stevie Smith yn *Gwyn Thomas*, tt. 108–11.
- <sup>59</sup> Roger McGough a Michael Rosen, *You Tell Me* (Harmondsworth: Kestrel Books, 1979), t. 18.

- 
- <sup>60</sup> Gwyn Thomas, ‘Mwy na’r un Maint’, *Y Pethau Diwethaf a Phethau Eraill* (Gwasg Gee: Dinbych, 1975), t. 51.
- <sup>61</sup> Gerwyn Williams, ‘Gwyn Thomas yn ateb cwestiynau Gerwyn Williams (21.9.83)’, *Y Traethodydd*, 139:593 (1984), 215.
- <sup>62</sup> Ted Hughes, llythyr at Lissa Paul yn 1984 a ddyfynnwyd yn Lissa Paul, ‘Inside the Lurking-Glass with Ted Hughes’, *Signal*, 49 (1986), 55.
- <sup>63</sup> Thomas, *Croesi Traeth*, tt. 13–14.
- <sup>64</sup> Dyf. yn Michael Lockwood, ‘Ted Hughes: The Development of a Children’s Poet’, *Children’s Literature in Education*, 40 (2009), 304.
- <sup>65</sup> Pat Hutchins, cyf. Mary Vaughan Jones, *Begw’r Iâr yn Mynd am Dro* (Llandysul: Gwasg Gomer, 1980). Fe’i cyfieithwyd eto i’r Gymraeg gan Elin Owen Jones, *Magi’n Mynd am Dro* (Rhyl: Gwasg Helygain, 2009).
- <sup>66</sup> Diolch i Barddas am roi caniatâd i atgynhyrchu delwedd o’r gyfrol *Drama’r Nadolig* (Cyhoeddiadau Barddas, 1989).
- <sup>67</sup> Dyf. yn Llwyd *Gwyn Thomas*, tt. 79–80.
- <sup>68</sup> Llwyd, *Gwyn Thomas*, t. 111.
- <sup>69</sup> Gwyn Thomas, darluniau gan Margaret Jones, *Stori Dafydd ap Gwilym* (Talybont: Y Lolfa, 2003), t. 6.
- <sup>70</sup> Ibid.
- <sup>71</sup> Gwyn Thomas, darluniau gan Margaret Jones, *Llywelyn ein Llyw Olaf* (Talybont: Y Lolfa, 2009), t. 4.
- <sup>72</sup> Thomas, *Llyfr Gwyn*, t. 199.
- <sup>73</sup> Joseph P. Clancy, ‘Preface’, yn Gwyn Thomas, *Living a Life: Selected Poems 1962–82*, (Amsterdam: Bridges Books, 1982), t. 7.
- <sup>74</sup> Myrddin ap Dafydd, ‘I Gwyn Thomas’, yn Walford Davies (gol.), *Gweledigaethau*, t. 19.

---

<sup>75</sup> Wiliams, “Yr Ianci o’r Blaenau”, t. 248.

<sup>76</sup> Gwyn Thomas, ‘Mae’n Wlad i Ni’, yn M. Wynn Thomas (gol.), *Gweld Sêr: Cymru a Chanrif America* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, t. 2001), t. 32.

<sup>77</sup> *Ibid.*, t. 33.